# Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 3 - Y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Iau, 8 Rhagfyr 2011** |
| Amser: | **09:30 - 11:20** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_400000_08_12_2011&t=0&l=cy

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Mark Drakeford (Cadeirydd)**<br>**Mick Antoniw**<br>**Rebecca Evans**<br>**Vaughan Gething**<br>**William Graham**<br>**Elin Jones**<br>**Lynne Neagle**<br>**Lindsay Whittle** |
| Tystion: | **Dr Chris Jones, Llywodraeth Cymru**<br>**Grant Duncan, Llywodraeth Cymru** |
| Staff y Pwyllgor: | **Sarah Beasley (Clerc)**<br>**Llinos Dafydd (Clerc)**<br>**Naomi Stocks (Clerc)**<br>**Catherine Hunt (Dirprwy Glerc)**<br>**Joanest Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)**<br>**Gregg Jones (Ymchwilydd)**<br>**Stephen Boyce (Ymchwilydd)**<br>**Victoria Paris (Ymchwilydd)** |

### 1. Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Darren Millar a Kirsty Williams. Nid oedd dirprwyon.

### 2. Y wybodaeth ddiweddaraf am faterion polisi yr Undeb Ewropeaidd sy'n berthnasol i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

2.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod y papur â Gregg Jones o'r Gwasanaeth Ymchwil.

2.2 Gofynnodd y Pwyllgor am ragor o wybodaeth am anghydraddoldebau iechyd, gan gynnwys gwybodaeth ynghylch unrhyw ddeddfwriaeth arfaethedig, cymeradwyo cyffuriau ledled yr UE, a modelau gofal i'r henoed yng ngwledydd yr UE.

2.3 Cytunodd y Pwyllgor i ystyried materion polisi'r UE eto fel rhan o drafodaeth ehangach ar ei flaenraglen waith yn y dyfodol.

## 3. Ymchwiliad i ofal preswyl i bobl hyn - Cynllun gwaith y Pwyllgor

3.1 Cytunodd y Pwyllgor ar ei gynllun gwaith ar gyfer ei ymchwiliad i ofal preswyl i bobl hŷn.

## 4. Papur Gwyn ar Roi Organau - Sesiwn friffio ar y materion technegol gan swyddogion Llywodraeth Cymru

4.1 Ymatebodd y swyddogion i gwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor ynghylch y Papur Gwyn ar Roi Organau.

4.2 Cytunodd y swyddogion i ddarparu'r wybodaeth ychwanegol a ganlyn, y gofynnodd y Pwyllgor amdani:

- rhestr o sefydliadau yn y trydydd sector sydd wedi'u cynnwys yn yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyn;
- manylion am gyfarfodydd cyhoeddus ar y Papur Gwyn a fydd yn cael eu cynnal yn y dyfodol;
- eglurhad ynghylch a yw'r trefniadau presennol ar gyfer rhoi organau a meinweoedd yn gymwys yng Nghymru a Lloegr yn unig, neu hefyd yn cynnwys yr Alban a Gogledd Iwerddon.

4.3 Cytunodd y Pwyllgor i gynnal sesiwn debyg ar ddiwedd y broses o ymgynghori ar y Papur Gwyn.

## 5. Papurau i'w nodi

5.1 Nododd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 16 a 24 Tachwedd.

5.2 Nododd y Pwyllgor y papurau i'w nodi.

## 6. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitemau 7 ac 8

6.1 Cytunodd y Pwyllgor ar y cynnig i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod ar gyfer eitemau 7 ac 8.

## 7. Ymchwiliad i Leihau'r Risg o Strôc - Adroddiad drafft

7.1 Bu'r Pwyllgor yn ystyried yr adroddiad drafft ar ei ymchwiliad i leihau'r risg o strôc.

## 8. Paratoi ar gyfer y sesiwn graffu ar waith y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

8.1 Bu'r Pwyllgor yn ystyried y materion y byddai'n eu crybwyll wrth y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn y sesiwn graffu ar 25 Ionawr 2012.

**TRAWSGRIFIAD**

Trawsgrifiad o'r cyfarfod.